**TUDALEN 13**

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **5 Medi 2022** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL: -** Ei Deilyngdod y Maer, Cynghorydd Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer Cynghorydd Elin Walker Jones, Cyng. Janet Abas, Cyng. Salamatu Fata, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Shane Parsons, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng. Peter Whitby, Cyng John Wyn Williams

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig) Howard Huws (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

**45/22 YMDDIHEURIADAU**

Cyng Dylan Fernley, Cyng Steve Bell.

**46/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

**47/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Steffan Llyr Williams, Gwasanaethau Ieuentid, Cyngor Gwynedd

**48/22 DERBYN ADRODDIAD GAN YR IS-BWYLLGOR PENODIADAU**

Eglurodd Ei Deilyngdod y Maer fod y Cyngor wedi cymeradwyo argymhelliad i gynnig swydd Cyfarwyddwr y Ddinas i Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro. Roedd Mr Hanks wedi derbyn y swydd. Fe'i llongyfarchwyd yn gynnes gan bawb a diolchwyd iddo am ei waith caled yn y cyfnod interim.

**49/22 TO DERBYN ANERCHIAD GAN Y CYARWYDDWR DINESIG NEWYDD**

Diolchodd y Cyfarwyddwr Dinesig i'r Aelodau am roi eu ffydd ynddo a dywedodd ei fod yn ddiolchgar am y cyfle i ymgymryd â'r swydd gyffrous hon. Mae ef eisoes yn gyfarwydd â Chyngor Dinas Bangor wedi gweithredu fel Clerc y Dref dros dro rhan amser am gyfnod. Dywedodd fod ganddo lawer o syniadau i Fangor ond mai gweithio mewn partneriaeth â'r aelodau y byddai, gan eu helpu i symud ymlaen ar eu penderfyniadau. Dyma rhai o'r syniadau yr hoffai eu hystyried:

- hyrwyddo Bangor drwy wella'i delwedd weledol
- trefnu mwy o ddigwyddiadau
- defnyddio rhai o siopau gwag y stryd fawr i ddenu siopau naid neu gymunedol
- defnyddio rhai ar gyfer busnesau newydd, mewn cydweithrediad â'r Brifysgol
- cryfhau grŵp y Pier

Pwysleisiodd eto fodd bynnag, y dylai pob un o'r aelodau fod yn meddwl am ffyrdd o wella Bangor ac awgrymodd ei bod yn bryd cael gweithdy arall i wyntyllu syniadau pawb.

**TUDALEN 14**

**50/22 CYFLWYNIAD GAN STEFFAN LLYR WILLIAMS, CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd Steffan Williams fel rheolwr newydd Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd Gwynedd wedi torri nifer y clybiau ieuenctid a gwaith Steffan oedd ceisio dod o hyd i ffyrdd o'u hail-ddechrau.

Ei obaith oedd y byddai gan Gyngor Dinas Bangor ddiddordeb mewn gweithio gydag ef i ariannu clwb neu glybiau ieuenctid ym Mangor. Byddai'r clybiau yn dilyn canllawiau gan Gyngor Gwynedd a byddent yn atebol i'r Cyngor hwnnw. Byddai Cyngor Gwynedd yn delio â materion fel recriwtio, hyfforddiant, gwiriadau DBS, cymorth cyntaf ayb.

Dywedodd Mr Williams ei bod yn fwy anodd sefydlu clybiau ieuenctid ym Mangor gan fod nifer o wahanol gymunedau yn y ddinas. Gallai fod yn syniad cael mwy nag un clwb ym Mangor.

Roedd yr aelodau'n llwyr gymeradwyo'r syniad o ddod yn ôl â chlybiau ieuenctid. Ar yr un pryd, tynnwyd sylw at rai cynlluniau i bobl ifanc sy'n mynd rhagddynt yn barod, e.e. canolfan Affrica. Awgrymwyd hefyd y gallai myfyrwyr o Brifysgol Bangor sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid gymryd rhan. Gellid hefyd wneud cysylltiadau â Chanolfan Brailsford.

Roedd yr aelodau'n gytûn mewn egwyddor y byddent yn barod i ariannu'r ddarpariaeth, ond byddai angen mwy o fanylion am y costau cyn gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gysylltu â Steffan Williams fel y gallai ddod â phapur gyda'r costau a'r goblygiadau llawn, i'r cyfarfod nesaf.

**51/22 TRAFOD STRWYTHUR Y CYNGOR**

Roedd papur wedi'i ddosbarthu i'r aelodau yn cynnig strwythur cyfarfodydd newydd.
**PENDERFYNWYD** y byddai'r Pwyllgor Asedau a Phrosiectau yn cyfarfod unwaith y mis. Byddai'r aelodau i gyd yn eistedd ar y pwyllgor hwn a byddai ganddo awdurdod dirprwyedig llawn. Byddai hefyd yn trafod ceisiadau cynllunio strategol, yn ôl yr angen.
Byddai'r Cyngor llawn yn cyfarfod yn ffurfiol bob 3 mis, ond gallai gyfarfod yn amlach pe bai angen. Byddai'n ymdrin ag unrhyw fater nad oedd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Asedau a Phrosiectau.

Hysbyswyd yr aelodau gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod 2 o'r aelodau cyfetholedig newydd wedi gorfod tynnu'n ôl oherwydd rhesymau personol. Gofynnwyd i'r aelodau anfon enwebiadau am aelodau cyfetholedig posibl eraill.

**52/22 COFNODION**

i) Cyfarfod y Cyngor 6 Mehefin 2022 – cymeradwywyd fel cofnod cywir.
ii) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 27 Mehefin 2022, cymeradwywyd fel cofnod cywir
iii) Cyfarfod y Cyngor 18 Gorffennaf 2022 – cymeradwywyd fel cofnod cywir.

**TUDALEN 15**
**53/22 CYMERADWYO ANFONEBAU I'W TALU**

Ystyriwyd anfonebau i'w talu am mis Ebrill tan mis Awst.

Cafwyd cwestiwn ynghylch y ffaith fod gwahanol gwmnïau'n cael eu defnyddio i wneud gwasanaethau tebyg megis edrych ar ôl planhigion, tybed a allai'r gwaith hwn ddigwydd o dan un cwmni, neu a fyddai'n fwy darbodus cyflogi gweithiwr ychwanegol.
Atebodd y Cyfarwyddwr Dinesig ei fod wedi dechrau gwneud archwiliad o'r gwaith sy'n cael ei wneud, er mwyn gweld a ellir strwythuro pethau'n well.
**CYMERADWYWYD** y taliadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR